Annwyl Riant/Warcheidwad,

**Gwyliau/Absenoldebau Adeg Tymor**

Caiff y llythyr hwn ei yrru at ein holl rieni i ddarparu gwybodaeth ynglŷn â'r newid i'r polisi sy'n ymwneud â gwyliau adeg tymor.

Yng Nghymru, rydym am i'n holl ddisgyblion gyflawni llwyddiant felly mae'n bwysig fod rhieni yn gwneud eu gorau glas i gefnogi disgyblion i fynychu ysgol am y 190 o ddiwrnodau o fewn y flwyddyn academaidd lawn, fel y nodir yn Rheoliadau Addysg (Diwrnod Ysgol Blwyddyn Ysgol) (Cymru) 2006.

O dan y Ddeddf Addysg (1996), mae'n gyfrifoldeb i'r rhieni sicrhau fod eu mab/ merch yn mynychu ysgol.

Mae presenoldeb ysgol rheolaidd yn hanfodol a gall colli ysgol gael effaith arwyddocaol ar gyflawniad dros gyfnod o flwyddyn fel y nodir isod:

| | | |
|---|---|---|
| Presenoldeb 95-100% | Y cyfle gorau o lwyddiant | Mae'ch plentyn yn cymryd mantais lawn o bob cyfle dysgu. |
| Presenoldeb 90-95% | Wedi colli o leiaf 2 wythnos o ddysgu | Boddhaol. Efallai y bydd rhaid i'ch plentyn dreulio amser yn dal i fyny â gwaith. |
| Presenoldeb 85-90% | Wedi colli o leiaf 4 wythnos o ddysgu | Gallai'ch plentyn fod mewn perygl o dangyflawni ac mae angen cefnogaeth ychwanegol oddi wrthych i ddal i fyny â gwaith. |
| Presenoldeb 80-85% | Wedi colli o leiaf 5½ wythnos o ddysgu | Mae presenoldeb gwael eich plentyn yn cael effaith arwyddocaol ar ddysgu. |
| Presenoldeb islaw 80% | Wedi colli o leiaf 7½ wythnos o ddysgu | Mae'ch plentyn yn colli addysg eang a chytbwys. Rydych mewn perygl o gael eich erlyn. |

**Er mwyn cefnogi ein hymgyrch i gynyddu presenoldeb y disgyblion, mae ERW, ein Consortiwm Addysg Rhanbarthol, wedi penderfynu na fydd Prifathrawon yn awdurdodi unrhyw absenoldebau a achosir gan wyliau adeg tymor. Golyga hyn y caiff absenoldebau a achosir gan ddisgyblion yn cymryd gwyliau adeg tymor, eu cofnodi fel rhai anawdurdodedig.**

Hyderwn y gallwch gefnogi'r newid i'r polisi hwn a threfnu'ch gwyliau o gwmpas y 175 o ddiwrnodau y mae ysgolion ar gau yn ystod y penwythnosau a'r gwyliau, gan gynorthwyo ni i gefnogi'ch plentyn i gyflawni llwyddiant yn yr ysgol.

Yr eiddoch yn gywir,

R.C Williams
Pennaeth